

Rhestr Termau

RHESTR TERMAU SY'N CAEL EU DEFNYDDIO YN LLAWLYFR TYSTYSGRIF GENEDLAETHOL LEFEL 2 BIIAB I DDALWYR TRWYDDED BERSONOL

Gair neu ymadrodd	Diffiniad yng nghyd-destun Cyfraith ac Ymarfer Trwyddedu
Adloniant wedi'i Reoleiddio	Adloniant sydd wedi ei ddiffinio yn y Ddeddf fel gweithgaredd trwyddedadwy
Adolygiad	Proses gyfreithiol sy'n caniatáu i'r rhaglen weithredu ar gyfer safle gael ei newid er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu cyflawni
AHRS	Strategaeth ar gyfer Lleihau Niwed gan Alcohol
Ailadroddol	Sylw (gwrthwynebiad) sy'n debyg i un sydd wedi ei wneud gan yr un bobl o fewn un flwyddyn
Alcohol	Diod sydd â lefel Alcohol yn ôl cyfaint (ABV) o fwy na 0.5%
Alcohol yn ôl cyfaint (ABV)	Mesuriad sy'n dangos canran yr alcohol sydd mewn maint penodol o ddiod
Amcanion trwyddedu	Y 4 egwyddor sy'n sail i'r Ddeddf
Amddiffyniad	Dadleuon cyfreithiol person sy'n gwadu ei fod wedi cyflawni trosedd
Amodau	Darpariaethau sy'n cael eu cytuno gan yr awdurdod trwyddedu a'r daliwr trwydded safle, yn ôl yr angen, i ategu'r amcanion trwyddedu
Amodau gorfodol	Amodau sy'n berthnasol i'r holl safleoedd sydd wedi eu trwyddedu i werthu alcohol. Rhaid cydymffurfio â'r amodau hyn
Amrywiad	Proses ar gyfer newid y rhaglen weithredu i gynnwys, er enghraifft, weithgareddau trwyddedadwy ychwanegol neu oriau masnachu estynedig
Apêl	Proses sy'n caniatáu i berson herio penderfyniad
ASBO	Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
Asesiad risg	Arolwg o'r risgiau ac o'r camau sy'n cael eu cymryd i'w lleihau. Rhaid i'r asesiad gael ei gynnal gan ddaliwr arfaethedig trwydded safle cyn iddo gyflwyno cais am drwydded safle
Atal, ataliad	Peidio â chaniatáu i rywbeth fod yn ddilys am gyfnod. Fel rheol mae hyn yn ymwneud â thrwydded bersonol neu drwydded safle
Awdurdod Trwyddedu	Y corff llywodraeth leol sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â thrwyddedu
Blinderus	Sylw/gwrthwynebiad yr ystyrir ei fod yn seiliedig ar ymryson rhwng busnesau
Buddgyfranogwr	Person neu bobl sy'n byw neu'n gweithio yng nghyffiniau'r safle
Cosb	Fel rheol, dirwy a/neu garchariad
Cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol	Cyfarwyddyd gan y Llywodraeth i Awdurdodau Lleol ynglŷn â sut i weithredu'r Ddeddf
Cyfleusterau adloniant	Er enghraifft llawr dawnsio neu biano sydd wedi ei ddarparu er mwyn i adloniant allu digwydd
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Y corff sy'n gorfodi deddfau sy'n ymwneud â thollau a TAW
Cyrff perthnasol	Awdurdodau sydd wedi eu diffinio fel rhai sydd â diddordeb mewn datganiadau o bolisi trwyddedu
Darfod	Rhoi'r gorau i fod mewn grym neu'n ddilys

Gair neu ymadrodd	Diffiniad yng nghyd-destun Cyfraith ac Ymarfer Trwyddedu
Datganiad dros dro	Math o drwydded safle y gellir ei chael ar gyfer safle sydd wrthi'n cael ei adeiladu neu ei newid
Datganiad o bolisi trwyddedu	Datganiad polisi sy'n cael ei gyhoeddi bob 3 blynedd gan bob awdurdod trwyddedu
Diddymu	Mynd â rhywbeth oddi ar rywun — mae hyn yn ymwneud â thrwydded safle fel rheol
Diwydrwydd Dyladwy	Cymryd pob cam rhesymol i atal torcyfraith
Eithriad, eithriedig	Sefyllfa lle nad yw'r gyfraith yn berthnasol
Euogfarn	Cael unigolyn yn euog o drosedd
Euogfarn nad yw wedi darfod	Euogfarn sydd i'w weld ar gofnod troseddol unigolyn ac a allai ei atal rhag cael trwydded bersonol
Euogfarn sydd wedi darfod	Euogfarn sydd ddim yn cyfrif, mwyach, mewn Gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), oherwydd yr amser sydd wedi mynd hebio
Fforffedu, fforffediad	Mynd â rhywbeth oddi ar rywun am byth
Gorchymyn cau	Gorchymyn i gau safle neu'r holl safleoedd mewn ardal
Goruchwyliwr Dynodedig Safle	Y person sydd wedi ei enwebu fel yn unigolyn atebol mewn safle sydd wedi ei drwyddedu i werthu alcohol
Goruchwylwyr drws sydd wedi eu trwyddedu gan yr SIA	Rhaid i oruchwylwyr drwsau gael eu trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA)
Goryfed mewn pyliau	Yfed gyda'r bwriad o feddwi neu o yfed llawer iawn o alcohol mewn un sesiwn neu dros gyfnod byr o amser
Gwacsaw	Yn brin o ddifrifoldeb
Gwaharddiadau	Gweithgareddau nad yw'r gyfraith yn eu caniatáu
Gweithgareddau trwyddedadwy	Mae 4 o weithgareddau trwyddedadwy. Mae angen trwydded safle ar gyfer unrhyw un ohonynt neu ar gyfer y cyfan
Gwerthiant anawdurdodedig o alcohol	Unrhyw werthu alcohol sy'n digwydd y tu allan i delerau'r drwydded safle a'r rhaglen weithredu, neu sy'n cael ei wneud o safle sydd ddim yn drwyddedig naill ai gan TEN neu gan drwydded safle
Gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)	Proses lle gall unigolyn ddangos a oes ganddo gofnod o droseddu
Gwrandawriad	Cyfle i bawb sy'n gysylltiedig â mater trwyddedu sy'n cael ei ymladd gyfarfod a datgan eu hachos
Gwrthwynebiad	Yng nghyd-destun cyfraith drwyddedu, mae gwrthwynebiad yn cael ei alw'n sylw perthnasol. Gall yr heddlu wrthwynebu Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro neu benodiadau Goruchwyliwr Dynodedig Safle (DPS)
Hysbysiad	Rhoi gwybod i'r awdurdod lleol fod Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro am gael ei gyhoeddi. Ar gyfer y rhan fwyaf o faterion eraill, mae cais yn cael ei wneud
Hysbysiad awdurdodi dros dro	Proses sy'n adfer trwydded safle ar fyr rybudd
Hysbysiad o Ddigwyddiad Dros Dro (TEN)	Dull o alluogi i weithgareddau trwyddedadwy gael eu cynnal mewn safle lle nad yw'r safle neu'r digwyddiadau hynny'n cael eu trwyddedu fel rheol
Lluniaeth hwyrnosau	Bwyd poeth neu ddiod sy'n cael ei weini rhwng 11.00pm a 5.00am — gweithgaredd trwyddedadwy
Nwyddau wedi eu smyglo	Nwyddau y mae rhywun wedi eu cael heb dalu toll y Llywodraeth
Partneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn	Strategaethau partneriaeth leol sydd â'r bwriad o leihau trosedd ac anhrefn mewn ardal. Weithiau maent yn cael eu galw'n Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol

Gair neu ymadrodd	Diffiniad yng nghyd-destun Cyfraith ac Ymarfer Trwyddedu
Person Awdurdodedig	Person sydd wedi ei hyfforddi a'i awdurdodi gan Oruchwyliwr Dynodedig Safle (DPS), neu gan ddaliwr Trwydded Bersonol, i werthu alcohol
Rhaglen weithredu	Cynllun ar gyfer sut y bydd y busnes yn gweithredu. Rhaid ei chyflwyno gyda chais am drwydded safle
Rheoliadau	Cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth i awdurdodau trwydded lleol ynglŷn â ffioedd a threfnau ymgeisio
Sylwadau perthnasol	Gwrthwynebiadau i ganiatâd o drwydded safle
Torcyfraith	Torri'r gyfraith
Trosedd berthnasol	Tramgwydd troseddol sydd wedi ei restru yn y Ddeddf fel un a allai rwystro unigolyn rhag dal trwydded bersonol
Trosedd ddieithr	Trosedd sy'n debyg i drosedd berthnasol ond sydd wedi ei chyflawni y tu allan i Gymru a Lloegr
Trosglwyddiad	Proses ar gyfer newid daliwr y drwydded safle
Trwydded Bersonol	Trwydded ar gyfer unigolyn, sy'n caniatáu iddo werthu alcohol mewn cysylltiad â thrwydded safle
Trwydded Safle	Trwydded sy'n berthnasol i'r safle, ac sy'n caniatáu i un neu ragor o weithgareddau trwyddedadwy ddigwydd
Yng nghyffiniau	Gerllaw. Mae'r union ddehongliad o'r cyffiniau i'w ddiffinio gan y llysoedd
Ymddygiad afreolus	Ymddygiad swnllyd, aflonyddgar, meddw o bosib